

Prentisiaeth gyrru trê'n gyntaf erioed i Gymru

Wales
TUC
Cymru

Sefydlwyd gan Raglen Partneriaeth Ddysgu ASLEF, cynllun a ariennir gan Gronfa Ddysgu Undeb Cymru.

Mae ASLEF, yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, TUC Cymru, Academi Sgiliau Genedlaethol y Rheilffyrdd a Cymwysterau Cymru, wedi mynd i'r afael â'r dasg enfawr o ddatblygu Prentisiaeth gyrru trê'n newydd sbon.

Cymerodd y broses sawl blwyddyn ac fe wnaethom oresgyn nifer o rwystrau a heriau ar hyd y ffordd, ond cafodd y cymhwyster newydd ei gymeradwyo ac roedd yn barod i gofrestru prentisiaid erbyn mis Hydref 2021.

Sut mae cael gwybod mwy

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cais i fod yn brentis gyrru trê'n i Trafnidiaeth Cymru, y peth gorau i'w wneud yw cadw llygad ar wefannau gweithredwyr rheilffyrdd yn eich ardal.

Mae swyddi Trafnidiaeth Cymru wedi'u rhestru [yma](#).

I gael gwybodaeth am y prosiect, cysylltwch ag Emma Penman:
emmalpenman@aslef.org.uk

Pwy ydym ni?



Sefydlwyd ASLEF (Associated Society of Locomotive Engineers and Firemen) yn 1880, a dyma undeb gyrrwyr trenau mwyaf y DU sy'n cynrychioli dros 21,000 o aelodau mewn cwmnïau trenau a chwmnïau cludo nwyddau yn ogystal â London Underground a systemau rheilffyrdd ysgafn. Mae'r undeb yn cynrychioli ychydig dros 700 o yrwyr yng Nghymru.



Y Rhaglen Partneriaeth Ddysgu yw prosiect Cronfa Ddysgu Undeb Cymru (WULF) ASLEF, sydd wedi bod yn gweithio gyda Chwmnïau Gweithredu Trenau ers 2010 i greu gweithlu cryfach, mwy medrus a chadarn ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru.

Ein nod

Ein nod a'n prif ffocws oedd cyflwyno a datblygu'r Brentisiaeth Gyrrwr Trê'n gyntaf erioed i Gymru.

Y cefndir

Dechreuodd yr ymgyrch sawl blwyddyn yn ôl. Dechreuodd ASLEF, gyda chefnogaeth TUC Cymru, drwy lobio'r cwmni trenau.



“Roedden ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig bod Gyrrwyr Trenau yn cael cydnabyddiaeth am y lefel uchel o hyfforddiant y maent yn mynd drwyddo er mwyn ennill eu “hallwedd” a chymwysterau cydnabyddedig i adlewyrchu'u sgiliau.”

Emma Penman, Gweithiwr Prosiect ASLEF



Carfan TrC o brentisiaid gyrru trên ar y diwrnod cofrestru gyda'r Tîm Hyfforddi a Gweithiwr Prosiect ASLEF

Y dechrau

Ym mis Ebrill 2019, sefydlwyd gweithgor yn benodol i ddatblygu Cymhwyster/Prentisiaeth Gyrru Trên i Gymru. Roedd y grŵp yn cynnwys Pennaeth Dysgu a Datblygu Trafnidiaeth Cymru; Swyddog Dysgu TUC; aelodau o Gyngor Cwmni ASLEF; Gweithiwr Prosiect Addysg ASLEF; swyddogion o Lywodraeth Cymru, a'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Rheilffyrdd.

Cytunodd y grŵp bod angen cymhwyster ffurfiol, felly ein camau nesaf oedd ceisio cael corff dyfarnu i ddatblygu'r fframwaith a gwneud cais am gyllid.

Yr Heriau

Bu Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu i geisio rhoi'r cymhwyster ar waith ond dyma pryd y cododd yr her fwyaf: Dywedodd y cyrrff dyfarnu fod nifer y bobl a fyddai'n dilyn y brentisiaeth bob blwyddyn yn rhy isel i gyfiawnhau ei datblygu. Roedd hyn yn amlwg yn achos rhwystredigaeth i'r gweithgor.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Diolch i hanes hir o weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, roedd modd i ASLEF droi at ein perthynas â Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru,

i egluro'r broblem. Roedd y Gweinidog yn awyddus i gefnogi'r cymhwyster ac, ar 5ed Mawrth 2020, ysgrifennodd i gyfarwyddo y dylai'r gweithgor gysylltu â Cymwysterau Cymru i oruchwylio dyluniad y cymhwyster newydd a chomisiynu corff dyfarnu.

Y Broses Partneriaeth

Ym mis Medi 2020, bu Ian Thompson, Ysgrifennydd Cyngor Cwmni ASLEF, ac Emma Penman yn y cyfarfod rhanddeiliaid cyntaf gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC) a'r sefydliadau partner a oedd wedi ymuno i ddatblygu'r cymhwyster: Coleg y Cymoedd (partner darparu'r brentisiaeth) ac EAL (corff dyfarnu sgiliau arbenigol).

Roeddem wedi cytuno y byddai'r cymhwyster yn cael ei ddatblygu o strwythur presennol TrC ar gyfer hyfforddi gyrrwyr trenau. Cafodd hyn ei fapio gan EAL i greu cymhwyster. Fe'i gosodwyd ar lefel 3 ac fe'i datblygwyd o dan Fframwaith Prentisiaeth Cymru i gynnwys Sgiliau Hanfodol lefel 2 (llythrennedd, rhifedd a TGCh). Datblygodd EAL gymhwyster annibynnol – y Diploma Lefel 3 mewn Gyrru Trenau.

Ym mis Ionawr 2021, pan gyflwynwyd prif gorff y cymhwyster, cymerodd ASLEF ran mewn ymarferiad ymgysylltu swyddogol a ddaeth â Llywodraeth Cymru ac Academi Sgiliau Cymru

i mewn i'r grŵp rhanddeiliaid i gymeradwyo'r gwaith yn swyddogol.

Ar 8fed Chwefror 2021, cafodd EAL Diploma Lefel 3 mewn Gyrru Trenau – C00/4312/6, gymeradwyaeth gan Cymwysterau Cymru gyda dyddiad cychwyn gweithredol o 1af Mawrth 2021.

Yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus pedair wythnos (rhannu'r cymhwyster gyda sefydliadau fel ASLEF, Darparwyr Dysgu a Chwmnïau Gweithredu Trenau), rhoddodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth i symud ymlaen i ennill statws prentisiaeth.

Statws Prentisiaeth

Yna, aeth llawer o waith yn ei flaen y tu ôl i'r llenni, gan ein partneriaid sy'n rhanddeiliaid, i wireddu'r fenter. Ym mis Awst 2021, sefydlwyd y Brentisiaeth Gyrru Trên gyntaf erioed i Gymru ac, erbyn mis Hydref, roedd Trafnidiaeth Cymru yn barod i gofrestru'r prentisiaid gyrru trên cyntaf yng Nghymru.

Y Camau Nesaf

Mae TrC yn gobeithio recriwtio tua 100 o brentisiaid bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf. Mae'r fenter gyffrous hon yn llwyddiant mawr ac fe ddaeth i fodolaeth drwy wir ysbryd cydweithio.

Bydd ASLEF yn parhau i fod yn rhan o'r rhaglen brentisiaeth yn Trafnidiaeth Cymru drwy ein partneriaeth gymdeithasol. Bydd yr undeb yn parhau i gefnogi prentisiaid newydd ac yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i sicrhau amrywiaeth mewn rhaglenni recriwtio a chefnogi anghenion hyfforddi ychwanegol.

Mae gan ASLEF rôl negodi ac ymgynghori yn y rhaglen brentisiaethau erbyn hyn ac mae Trafnidiaeth Cymru wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar bartneriaeth gymdeithasol.



Pennaeth Adnoddau Dynol TrC a Threfnydd Dosbarth ALSEF yn llofnodi'r Siarter Prentisiaethau

Mick Whelan Ysgrifennydd Cyffredinol ASLEF

“Rydyn ni wrth ein bodd bod y cymhwyster achrededig cyntaf erioed yng Nghymru mewn gyrru trên ar waith o’r diwedd. Mae’n profi bod dyfalbarhad yn talu oherwydd mae hyn yn rhywbeth rydyn ni wedi bod yn pwysu amdano ers blyneddau. A nodaf mai dim ond dan Lywodraeth Cymru – Llywodraeth Lafur – y mae wedi digwydd. Mae’n gam gwych ymlaen o ran hyfforddiant, gyrwyr trenau, y rheilffordd, a Chymru.”

Dyweddodd **Adam Bagwell**, Rheolwr Hyfforddiant Gweithrediadau TrC:

“Rydym wedi gorfod disgwyl yn hir ond mae gwaith caled ein tîm hyfforddi mewn partneriaeth ag ASLEF, undeb llafur cenedlaethol y gyrwyr trenau, Coleg y Cymoedd, ein partner darparu prentisiaethau, a’r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd, bellach wedi dwyn ffrwyth.

“Mae rôl y gyrrwr trên yn swydd broffesiynol, fedrus iawn ac mae ein gyrwyr yn haeddu cydnabyddiaeth am eu gwaith caled drwy hyfforddiant ar ffurf y cymhwyster hwn. Mae’n dangos ein bod wedi ymrwymo i ddarparu’r hyfforddiant gorau posibl i’n gyrwyr yng Nghymru a’r Gororau.”

Dyweddodd **Matthew Tucker**, Pennaeth Cynorthwyol Coleg y Cymoedd:

“There has been huge infrastructure investment and development in transportation across Wales, and creating this apprenticeship generates new opportunities and ensures education and skills development forms a critical part.”

Dyweddodd **Lee Waters**, y Dirprwy Weinidog sy’n gyfrifol am Drafnidiaeth:

“Roedd creu Trafnidiaeth Cymru yn golygu mwy na dim ond gwella trafndiaeth gyhoeddus - roeddem am ddod â manteision eraill i’n cymunedau wrth wneud hynny. Mae dod â phrentisiaid i swyddi sy’n talu’n dda yn enghraifft wych o sut rydyn ni’n gwneud y ddau.”

